



Galw am geisiadau Gwobr Dewi-Prys Thomas 2015

Mae Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas yn falch o gyhoeddi y bydd yn dyfarnu y pedwerydd gwobr ar gyfer dylunio yng Nghymru yn mis Tachwedd 2015.

Mae gwobr deirblwyddol Dewi-Prys Thomas yn anrhydedd sy'n cydnabod pwysigrwydd dylunio da ar gyfer ansawdd bywyd, hunaniaeth ac adfywiad Cymru

Mae'r wobwr yn adeiladu ar waith Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas gan ddathlu bywyd yr athro ysbrydoledig a oedd yn hyrwyddo Cymru, a'r amgylchedd Gymreig. Roedd gan Dewi-Prys Thomas, a fu farw ym 1985, gariad angerddol am ei wlad a'r amgylchedd Gymreig ac mae'r wobwr yn ceisio adlewyrchu'r ysbryd angerddol ac ysbrydoledig hwn.

Dathlu dylunio da, a gwerthfawrogiad o ddylunio da, yn yr amgylchedd adeiladol yng Nghymru

Mae nifer fawr o bethau yn cyfrannu at yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddi, ac mae gwobr Dewi-Prys Thomas yn cydnabod prosiectau sy'n dangos rhagoriaeth mewn ystod eang o feysydd:

- Pensaerniaeth
- Dylunio tirlun a mannau cyhoeddus
- Gwelliannau amgylcheddol, prosiectau cynaladwyedd a pheirianeg sifil
- Celf gyhoeddus.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu fod y ddadl am, a dealltwriaeth o, ddylunio da yng Nghymru mor bwysig a gwireddu prosiectau adeiladu. Gan hynny, mae gwobr Dewi-Prys yn gwobrwyo cyfraniadau at ddealltwriaeth craff o'r amgylchedd adeiladol yn ogystal a phrosiectau sydd wedi eu cwblhau. Gall esiamplau gynnwys:

- Cynrychiolaeth o dirlun neu adeiladau Cymru mewn celf neu ffotograffiaeth
- Dyluniadau ysbrydoledig nad ydynt wedi cael eu gwireddu
- Gwaith sydd wedi gyhoeddi sy'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd dylunio yng Nghymru
- Ymgyrchu, addysgu a chyfrannu at ddylunio gwell.

Yn yr agweddau yma i gyd, bydd y beirniaid am wobrwyo prosiectau a mentrau sy'n dangos y nodweddion canlynol:

- Rhagoriaeth: gan arddangos y safon uchaf o ystyriaeth, dylunio a gweithredu
- Defnyddioldeb: cyflawni eu swyddogaeth yn syml ac effeithlon
- Gwreiddioldeb: darganfod ffyrdd newydd o weithio yn yr amgylchedd adeiladol
- Ysbrydoliaeth: yn gwneud gwahaniaeth i safon a gwerthfawrogiad dylunio yng Nghymru.

Y beirniaid

Y beirniaid ar gyfer gwobr 2015 fydd:

- Menna Richards OBE
- Simon Fenoulhet, Arlunydd
- Rhys Llwyd Davies, Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas
- Yr Athro Rhiannon Evans MBE, Ymddiriedolwraig, Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas.

Pwy all geisio neu gael ei enwebu?

Mae'r wobwr yn cydnabod rhagoriaeth drwy gyflwyno medal i unigolion, grwpiau, timau neu gwmnïau. Gall unrhyw brosiect, gwmni, grwp neu unigolion gael eu henwebu, neu enwebu eu hunain, neu eu gwaith. Nid oes cyfyngiad ar sail proffesiwn, statws, oed na swyddogaeth ar gyfer y ceisiadau neu enwebiadau.

Gall unrhyw un enwebu unrhyw brosiect. Nid oes angen i'r enwebydd wybod llawer am y prosiect, dim ond ei fod yn ei werthfawrogi fel cyfraniad at ddylunio da. Os bydd y beirniaid angen mwy o wybodaeth fe geisiant hynny gan y sawl sydd wedi ei enwebu.

Beth am leoliad neu bwnc y prosiect neu waith?

Rhaid i brosiect adeiladu neu fenter sydd wedi eu enwebu fod yng Nghymru. Dylai gwaith ddyluniwyr, arlunwyr, awduron neu gwmnïau/unigolion eraill fod yn uniongyrchol berthnasol i Gymru. Bydd y beirniaid yn chwilio am geisiadau sydd wedi gwneud gwahaniaeth i, neu'n dangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o, amgylchedd adeiladol yng Nghymru.

A yw hwn y gystadleuaeth i ddylunwyr Cymreig yw hwn?

Ni fydd unrhyw wahaniaethu ar sail cenedligrwydd neu leoliad y sawl sy'n cael eu henwebu; mae'r wobwr yn gael ei dyfarnu ar sail cyfraniad unrhyw brosiect neu fenter i Gymru.

Oes rhaid i unrhyw waith sy'n cael ei gyflwyno fod wedi cael ei wireddu?

Nid oes yna unrhyw reol benodol fod yn rhaid i brosiect fod wedi cael ei wireddu. Bydd prosiectau sydd wedi eu cwblhau yn cael eu dyfarnu ar sail eu ffurf cyflawn, ac effaith y gwaith hwnnw ar hyrwyddo dylunio da yng Nghymru.

Gellir cyflwyno prosiectau nad ydynt eto wedi cael eu gwireddu, ac mae'n hollol bosibl i'r beirniaid benderfynu fod y dyluniad ei hun wedi cael effaith ddwys neu werthfawr ar y drafodaeth am ddylunio da. Os, ar y llaw arall, fod y beirniaid yn credu byddai prif deilyngdod y gwaith mewn ffurf sydd wedi ei wireddu, gellid awgrymu ail-gyflwyno'r prosiect pan fo'r gwaith wedi cael ei gwblhau.



Mewn achosion gwaith sydd wedi ei gyhoeddi, arddangosfeydd neu gyfraniadau eraill i'r drafodaeth, mae'n annhebyg y bydd y beirniaid yn penderfynu fod y gwaith wedi cael effaith ddigon sylweddol ar ddealltwriaeth neu werthfawrogiad y cyhoedd os nad yw eto wedi cael ei gyhoeddi neu ei wireddu.

Dyddiad cwblhad

Yn achos y prosiectau neu fentrau hynny sydd wedi cael eu gwireddu, eu cyhoeddi neu arddangos, bydd disgwyl iddynt fod wedi cael eu cwblhau ers 1 Awst 2012.

Awdur y gwaith

Bydd yr ymddiriedolaeth yn ceisio cadarnhad gan pob ymgeisydd neu enwebiad mai eu gwaith hwy yw'r prosiect neu fenter, gan ofyn hefyd am restr o gyfranwyr neu gydweithwyr ar y prosiect. Bydd y beirniaid yn penderfynu os yw'n briodol gwobrwyo unigolyn os oes cyfraniadau allweddol gan ddylunwyr eraill.

Gwobr

Ar gyfer pumed gwobr Dewi-Prys Thomas, bydd medal arian yn cael ei chyflwyno, wedi ei grefftu gan JHF Castings, Birmingham. Bydd y beirniaid yn penderfynu os bydd gwobrau eraill yn cael eu cyflwyno. Mae'r beirniaid yn cadw'r hawl i beidio gwobrwyo unrhyw ymgeisydd nad ydynt yn credu ei fod yn deilwng.

Beirniadu a chyhoeddi

Bydd y beirniaid yn cyhoeddi eu dyfarniad gan drafod y cais (ceisiadau) buddugol a'r rhai sy'n derbyn canmoliaeth gan hefyd ystyried dylanwad y rhain ar ddylunio yng Nghymru.

Fe all yr enillydd (enillwyr) gael ei gyhoeddi, gyda ffotograffau, mewn erthyglau yn y wasg sy'n trafod y wobwr. Bydd gan Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas yr hawl i ailgynhyrchu deunydd yn llawn neu'n rhannol heb daliad na hawlfraint (pan fydd yr Ymddiriedolaeth wedi derbyn enwau ffotograffwyr, fe'i cydnabyddir).

Sut i geisio neu enwebu

Nid oes ffi am ymgeisio nac am enwebu prosiect, menter neu berson.

Nid oes rheolau pendant ynglŷn a beth all gael ei gyflwyno. Gall yr ymgeisydd/enwebydd ddewis pa ddefnydd fyddai'n fwyaf addas i'w gyflwyno er mwyn perswadio'r beirniaid o deilyngdod y cais. Gall hyn gynnwys cynlluniau, ffotograffau, gwaith celf, fideo, CD/DVD, llyfrau, erthyglau, argymhelliad cleient/defnyddwyr/cymuned neu ddisgrifiad o'r gwaith.



Fe ddylid, pa fodd bynnag, ddefnyddio synnwyr cyffredin. Fe wnaiff yr Ymddiriedolaeth ymdrechu i gyflwyno pob tystiolaeth i'r beirniaid ond yn cadw'r hawl i beidio defnyddio deunydd na all ei ddangos am resymau technegol.

Dylid cyfyngu gwybodaeth ddigidol at feddalwedd sy'n gyffredinol agored fel PDF/Acrobat, PowerPoint, Word, QuickTime, ayyb. Dylid osgoi cyflwyno ffeiliau CAD.

Ni fydd maint y deunydd sy'n cael ei gyflwyno yn dylanwadu ar benderfyniad y beirniaid.

Nid oes angen i'r ceisiadau ar gyfer y wobr fod yn ddiennw ac fe all enw y dyluniwr, grŵp, cwmni neu bersonau cyfrifol eraill gael ei gynnwys ar y deunydd sy'n cael ei gyflwyno.

Noder yn ofalus:

Ni all yr Ymddiriedolaeth ddychwelyd deunydd sy'n cael ei gyflwyno.

Cyflwyno ceisiadau a dyddiad cau

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn dydd Gwener, 11 Medi 2015 erbyn 12 (hanner dydd). Er mwyn sicrhau fod y deunydd yn cyrraedd mewn pryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn awgrymu defnyddio cludwr sy'n gwarantu dosbarthiad.

Bydd pob cais sy'n cael ei dderbyn yn cael ei gydnabod trwy e-bost mor fuan a phosibl ar ôl y dyddiad cau. Gall ceisiadau neu enwebiadau gael eu cyflwyno yn ddigidol, gyda phob atodiad perthnasol, trwy e-bost i: jonathan.vining@wyg.com

Dylai pob cais gael ei becynnu gyda'r geiriau YD-PT wedi eu marcio yn glir ar y tu allan a chael eu gyrru i'r cyfeiriad canlynol:

Ymddiriedolaeth Dewi-Prys Thomas
d/o WYG Group
Floor 5, Longcross Court
47 Newport Road
Caerdydd CF24 0AD

Cefnogwyr



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Sir Ddinbych
Denbighshire



manorhaus

RSAW

Persona-id